| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **3YDD MAWRTH, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ystod cyfarfod diwethaf y Cyngor llawn (10/12/2015), nodwyd cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 39 |
| Annibynnol | 20 |
| Llais Gwynedd | 8 |
| Llafur | 5 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 1 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 Mae aelodau'r Cyngor yn ymwybodol fod newidiadau wedi bod i'r cydbwysedd gwleidyddol tros y misoedd diwethaf. Mae'r Aelodau hefyd yn ymwybodol fod elfen arbenigol iawn i rai pwyllgorau, sy'n golygu goblygiadau hyfforddiant sylweddol (o ran amser ac arian).

2.2 Yn y cyd-destun hwn, mae Arweinydd Grwp Plaid Cymru wedi penderfynu peidio llenwi un o'r seddau a ddynodwyd i'r Grwp, sef sedd ar y Pwyllgor Pensiynau. Dan yr amgylchiadau hyn, mae gan y Cyngor hawl i ddewis yr aelodaeth mwyaf priodol i'r sedd. Bydd angen i'r Cyngor gefnogi'r argymhelliad o fwyafrif.

2.3 Gan fod y Cyngor newydd gwrdd â chostau penodol i hyfforddi aelod etholedig o'r Grwp Llafur i fod yn aelod o'r Pwyllgor hwn yn ddiweddar, argymhellir fod y sedd yn cael ei ddyrannu i Grwp Llafur.

### 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Golyga fod Grŵp Llafur yn ennill sedd ar y Pwyllgor Pensiynau ar draul Plaid Cymru. (Gweler **Atodiad A**)

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor gytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 uchod, gan gefnogi'r argymhelliad o fwyafrif.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 2 | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **82** | **41** | **16** | **9** | **4** | **2** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 1 | 2 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **102** | **51** | **20** | **13** | **5** | **3** | **194** |